Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 13eg o Ionawr 2010 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7yh

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Chris Parish, Cyng. Colin Jenkins, Cyng. Fran Murphy, Cyng. Edward Thomas,
Clerc y Dref
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng. Roy Davies, Cyng. Julia Jones, Cyng. Richard Wallace, Cyng. Dawn Wallace

Cof 321 / Ion / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w penderfynu

E/22233 Adeiladu llyn i wella'r tirlun ar barcdir hanesyddol a chreu bwnd ffin y parc, i gyd ar dir amaethyddol yn Llwynhelig
Sylw : Dim gwrthwynebiad, ar yr amod nad yw'n niweidiol i fywyd gwyllt a bod hawliau tramwy'n cael eu parchu.

E/22132 2xA1 - panel gwybodaeth darllenfwrdd lliw derw wedi eu fframio am y warchodfa natur yng Nghoed y Castell, Ystâd Dinefwr.
Sylw : Dim gwrthwynebiad.

E/22133 Un golau To drychiad blaen yn 16, Heol Alan
Sylw : Dim gwrthwynebiad.

Cof 232 / Ion / 10 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/21867 Codi annedd sengl newydd yn yr ardd (ailgyflwyniad E/21286 a dynnwyd yn ôl ar 4.7.09) yn 5, Teras Brynawel.
RHODDWYD

E/21920 Cais ôl-weithredol i adeiladu cyntedd pren agored gyda tho llechi ar du blaen tŷ yn 8, Stryd y Cei
GWRTHODWYD

E/20127 Gwaredu mantell simnai sy'n bresennol yn yr hen ystafell groeso yn Nhŷ Newton (mewnosodwyd ym 1990) ai amnewid gydag atgynhyrchiad newydd o'r fantell simnai wreiddiol, y gwyddwn ei fod yn bresennol nes C1984.
RHODDWYD.

Cof 233 / Ion / 10 Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl.

E/21826 Unedau gofal hunangynhwysol a fflat rheolwr arfaethedig, ar y cyd â chartref gofal yn 6, Heol Newydd

Cof 234 /Ion /10 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Llythyr oddi wrth reolwr CSG, Trevor Sage, yn rhoi rhybudd y bydd cylchfan Ffairfach yn cael ei gau dros dro, rhwng y 24ain-31ain o Ionawr. Bydd y Clerc yn cysylltu â CSG i ofyn i rybuddion i gael eu cyhoeddi yn y wasg leol ac ar y radio, er mwyn lleihau effaith yr amhariad.

Cof 235/ Ion /10 Llwybrau troed.

Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Mr Eirian James, i geisio sicrwydd y bydd y llwybrau troed yn cael eu cynnal a'u cadw yn y dyfodol gan CSG, ac y byddant yn cael eu cadw i'r safonau uchel y cedwir nhw ar hyn o bryd gan y Cyngor Tref.

Cof 236 / Rhag/ 10 Adroddiad y Swyddog Technegol

Rhoddodd Mr Davies adroddiad cynhwysfawr o'r holl waith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud yn Neuadd y Sir.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Fran Murphy, y dylid prynu 10 switsh amser ychwanegol am bris o £4 yr un, yn barod ar gyfer goleuadau Nadolig y flwyddyn nesaf. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas y dylid ad-dalu'r preswylydd, Mr Paul Rees, am y costau trydan a achoswyd wrth gytuno i'r goleuadau Nadolig i gael eu defnyddio o'i dŷ ef. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu i ofyn am i ddiolchiadau'r Cyngor i Prospect Construction am noddi coed Nadolig y Dref i gael eu cofnodi yn y wasg leol.
Gofynnwyd i'r Clerc i wneud ymholiadau p'un ai bydd Mr Bacon yn fodlon darparu dyfynbris i atgyweirio Cloc yr Eglwys.

Cof 237/ Ion/ 10 Yr Ardd Gymunedol

Gohiriwyd yr eitem hon nes y cyfarfod nesaf.

Cof 238 / Ion /10 Gohebiaeth

1. Rheolwr Blaen Gynllunio CSG, Jon Timothy, yn ymateb i lythyr y Cyngor yn gofyn i Gyngor Dylunio Cymru i gael ei ymgynghori mewn perthynas â Briff Datblygu'r Gogledd. Dywedodd Mr Timothy bod CSG yn dal i ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Briff, ac y bydd unrhyw ddatblygwr yn y dyfodol yn cael ei gynghori i ymgynghori â Chyngor Dylunio Cymru ar yr amser priodol.
2. Cynnyrch Second Life. Nodwyd.

Cof 239/ Ion/ 10 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.